# ADRODDIAD YSGOL EIFIONYDD

# Medi 2020

**Ail Agor i Bawb.**

Mae'n gyfnod rhyfedd ers ail agor i bawb yn Ysgol Eifionydd tymor yma. Yr athrawon sydd bellach yn symud o ddosbarth i ddosbarth tra bod pob blwyddyn yn aros yn eu swigen ddosbarth a blwyddyn. Rhyfedd oedd gweld y plant a'r athrawon yn eu mygydau o fewn yr ysgol gydag ardal tu allan ar wahân i bob blwyddyn. Rydym yn morio mewn cadachau glanhau a diheintydd alcohol, ond cadw'n ddiogel yw'r flaenoriaeth yn ystod y Pandemig. Yng nghanol hyn oll rydym yn croesawu disgyblion newydd i flwyddyn 7 ac maen nhw eisoes i weld wedi ymgartrefu'n dda. Llongyfarchiadau hefyd i bawb ar eu canlyniadau TGAU a BTEC. Ni chafwyd cyfle eleni i sefyll arholiad, ond roedd canlyniadau'r disgyblion yn adlewyrchu eu gallu a'u hymdrech yr un fath ag arfer. Dymunwn felly pob lwc iddynt yn y dyfodol a diolch i'r athrawon am eu gwaith caled.

**Ffarwelio â Staff**

Ar ddiwedd Tymor y Pasg ffarweliwyd â:
Mr. Philip Hughes, Technegydd yr Ysgol. Ymunodd Mr. Hughes â staff yr ysgol yn 1985.
Mrs. Nerys Griffiths, Uwch Gymhorthydd Gweinyddol. Ymunodd Mrs. Griffiths â staff yr ysgol yn 1993.
Mrs. Carol Williams, Swyddog Cefnogi Ysgol – presenoldeb. Ymunodd Mrs. Williams â staff yr ysgol yn 2017.
Ar ddiwedd Tymor yr Haf ffarweliwyd â:
Mrs. Kay Jones, Cymhorthydd ac Anogwr Dysgu. Ymunodd Mrs. Jones â staff yr Ysgol yn 1992.
Mr. Kevin Jones, athro Bioleg a Phennaeth Blwyddyn 8. Ymunodd Mr. Jones â staff yr Ysgol yn 1994.

Mae'r Ysgol yn gwerthfawrogi eu blynyddoedd o wasanaeth a chefnogaeth parod a diflino gydol y blynyddoedd. Bu eu hymroddiad i gyd yn amhrisiadwy a dymunwn ymddeoliad hapus iawn un ac oll.

Estynnwn groeso cynnes iawn i Mr. Cynan Glyn, athro Bioleg, Mrs. Katie Bailey, Swyddog Cefnogi Ysgol - Sustemau a Miss Meleri Williams, Swyddog Cefnogi Ysgol - Presenoldeb, Mr. Sion Guto Jones a Mrs. Sharon Pritchard yn Gymorthyddion. Llongyfarchiadau hefyd i Mr. Tomos Owen ar ei benodiad yn Anogwr Dysgu. Dymuniadau gorau hefyd i Elin Wallace - Athro Ffrangeg, Lois Evans - athro Addysg Gorfforol a Mirain Llyn - athro Cymraeg a Saesneg ar eu penodiad fel athrawon cyfnod mamolaeth.

Llongyfarchiadau mawr i nifer o aelodau staff yr Ysgol a gafodd fabis yn ystod y cyfnod clo - Sara Williams, Cymhorthydd ar enedigaeth Tom, Elliw Haf, Pennaeth Ffrangeg ar enedigaeth Mabon, Sion Cadwaladr athro Cynhwysiad a Busnes ar enedigaeth Ena Lois, Elin Davies, Cymhorthydd ar enedigaeth Doti, Gwenno Gibbard Bolton – athrawes Addysg Gorfforol ar enedigaeth Henri, Catrin Elan Roberts – athrawes Cymraeg a Saesneg ar enedigaeth Swyn Eryri ac Elin Thomas, Prif Gogyddes ar enedigaeth Lewis Wyn. Dymuniadau gorau iddynt oll.

Diolch mawr i griw Gwobr Dug Caeredin Blwyddyn 10 am gasglu sbwriel yn y gymuned a chynllunio gardd ger Canolfan Glaslyn.

Llongyfarchiadau i ddisgybl Bl.11 a disgybl ym Ml.8 am redeg busnesau defnydd llwyddiannus iawn yn gwerthu gorchuddion wyneb 3 haen ffasiynol a bandanas i gŵn gan ddefnyddio'r dechneg o glymu a llifo.